# Disgrifiad Swydd: Hyfforddwr y Clwb:

Mae hyfforddwr yn arwain y sesiynau hyfforddi yn y clwb. Yn fwy na dim, mae angen i hyfforddwr allu ysgogi aelodau.

**Sut byddwch chi'n elwa o'r swydd?**

- Ymdeimlad o roi yn ôl i'r gymuned
- Cwrdd â llawer o bobl o wahanol gefndiroedd
- Cyfle i ddatblygu sgiliau
- Datblygiad gyrfa posibl / cyflogadwyedd gwell
- Potensial i dderbyn hyfforddiant ac ennill cymwysterau newydd

**I bwy y byddaf i'n atebol?**

- Y Cadeirydd

**Pwy fydd yn atebol i mi?**

- Pob cyfranogwr yn eich sesiynau hyfforddi

**Bydd angen y canlynol arnoch chi:**

- Cymwysterau hyfforddi perthnasol (byddwch yn benodol am yr hyn sydd ei angen arnoch chi - lefel 1, lefel 2...)
- Gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau'r clwb
- Gwybodaeth am Bolisi a Gweithdrefnau Lles Plant y Corff Llywodraethu Cenedlaethol
- Cymhwyster cymorth cyntaf (gall y clwb eich cefnogi chi i gyflawni hyn, ar ôl eich penodi)

**Bydd angen i chi hefyd:**

- Bod yn ddibynadwy ac yn gyfrifol a bod yn esiampl i eraill
- Brwdfrydedd ac agwedd
- Medrau cyfathrebu da
- Dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, os yw'n swydd hyfforddi i bobl iau
- Sgiliau trefnu cryf
- Y gallu i ysgogi chwaraewyr

**Yr hyn y byddwch chi'n ei wneud:**

- Cynllunio ac arwain sesiynau hyfforddi hwyl a diogel, o bosib yn gweithio ochr yn ochr ag hyfforddwyr a chynorthwywyr hyfforddi eraill
- Arsylwi a dadansoddi sgiliau, gan awgrymu gwelliannau a sicrhau bod chwaraewyr yn gwybod am eu cynnydd
- Cysylltu â rheolwyr tîm
- Dewis timau, o bosibl yn gweithio gyda rheolwyr tîm a staff hyfforddi eraill
- Gweithredu elfennau hyfforddi Cynllun Datblygu'r Clwb
- Bod yn fentor i hyfforddwyr newydd ac Arweinwyr Ifanc
- Myfyrio a gwerthuso sesiynau hyfforddi
- Dirprwyo swyddogaethau cyfundrefnol nad ydyn nhw'n gofyn am sgiliau hyfforddi
- Cysylltu â'r corff llywodraethu cenedlaethol i gael mynediad at strwythurau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer chwaraewyr talentog
- Hyrwyddo a chydymffurfio â pholisi'r clwb, amddiffyn plant, chwarae teg, Cod Ymddygiad a chyfle cyfartal
- Dilynwch y drefn ar gyfer adrodd am ddamweiniau

**Faint o amser y bydd yn ei gymryd?**

- Tua 2-3 awr yr wythnos, er y bydd hyn yn dibynnu ar natur eich clwb/sefydliad chwaraeon.

**Hoffech chi ragor o wybodaeth? Croeso ichi gysylltu â:**
(*Rhowch fanylion cyswllt y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd neu'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr yma*)